# CYFARFOD CYNGOR ARBENNIG

## COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD MAWRTH, 30 GORFFENNAF 2019 AM 5.00 PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd J. Simmonds - Maer
Y Cynghorydd C. Andrews - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

M. Adams, Mrs E. Aldworth, A. Angel, P.J. Bevan, C. Bezzina, L. Binding, A. Collis, S. Cook, C. Cuss, W. David, D.T. Davies, K. Dawson, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, Mrs C. Forehead, Ms E. Forehead, A. Gair, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, D.T. Hardacre, L. Harding, D. Harse, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, M. James, V. James, L. Jeremiah, G. Johnston, Mrs B. Jones, S. Kent, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, C.P. Mann, Mrs P. Marsden, S. Morgan, Mrs G. Oliver, B. Owen, T. Parry, D.V. Poole, D.W.R. Preece, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, Mrs M.E. Sargent, G. Simmonds, S. Skivens, Mss E. Stenner, A. Whitcombe, R. Whiting, L G. Whittle, T. Williams a B. Zaplatynski.

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), S. Harris (Pennaeth Gwella Busnes (Dros Dro) a Swyddog Adran 151 (Dros Dro)), L. Lane (Dirprwy Swyddog Monitro a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd), A. Southcombe (Rheolwr Cyllid - Cyllid Corfforaethol) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

B. Morris (Grant Thornton – Archwilydd Allanol).

**1. TREFNIADAU FFILMIO GWE-DDARLLEDU A PHLEIDLEISIO**

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro y rheini oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio a byddai'n cael ei ddarparu ar gyfer y cyhoedd yn fyw a'i archifo drwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy'r system bleidleisio electronig.

**2. MUNUD O DAWELWCH**

Gyda thristwch mawr, cyhoeddodd y Maer y newyddion am farwolaeth Neil Powell, gyrrwr cyflenwi'r Cyngor ac yn gydweithiwr hirsefydlog yn yr Uned Argraffu. Cyhoeddodd y Cynghorydd Mann hefyd farwolaeth y Cyngynghorydd Sirol Dave Smith. Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion am funud o dawelwch fel arwydd o barch.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr D. Cushing, M. Davies, J.E. Fussell, Ms J. Gale, B. Miles, Mrs L. Phipps, Mrs D. Price, R. Saralis, J. Scriven, J. Taylor,
C. Thomas, W. Williams ac M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro ar gyfer Cymunedau) ac R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro).

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorwyr M. Adams, A. Angel, T. Davies, N. George, C. Gordon, J. Simmonds a C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro) fuddiannau mewn perthynas ag Eitem 4 ar yr Agenda - Datganiad yr Arweinydd ar ddechrau'r cyfarfod. Mae'r manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem briodol.

## 4. DATGANIAD YR ARWEINYDD

Datganodd y Cynghorwyr M. Adams, A. Angel, T. Davies, N. George, C. Gordon a J. Simmonds fuddiannau personol a rhagfarnllyd mewn perthynas â'r eitem hon gan eu bod yn Aelodau cyfredol o'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu. Datganodd C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro) fuddiant personol a rhagfarnllyd oherwydd ei rôl bresennol fel y Prif Weithredwr Dros Dro. Gan fod y buddiannau'n bersonol ac yn rhagfarnllyd, gadawsant yr ystafell pan gyflwynodd yr Arweinydd ei ddatganiad.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod y Person Annibynnol Dynodedig wedi cyflwyno ei hadroddiad terfynol mewn perthynas â'r ymchwiliad parhaus mewn perthynas â'r Prif Swyddog Gweithredol parhaol. Mynegodd yr Arweinydd bwysigrwydd caniatáu dilyn y broses briodol a dod â materion i ben, ac ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd hyn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd mis Medi 2019. Yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2018, cymeradwyodd y Cyngor ddarpariaethau ariannol ychwanegol ar gyfer costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r broses ymchwilio a hefyd ar gyfer cyflog y Prif Swyddog Gweithredol parhaol hyd at 31 Gorffennaf 2019. Ychwanegodd fod digon o arian ar gael o ddarpariaethau ariannol a gymeradwywyd yn flaenorol i gwrdd â'r costau pellach a ragwelir mewn perthynas â ffioedd cyfreithiol a'r Person Annibynnol Dynodedig, i ddod â'r broses ymchwilio i ben. Fodd bynnag, bydd angen sefydlu darpariaeth ariannol newydd o £31k i ariannu costau cyflog y Prif Swyddog Gweithredol parhaol hyd at ddiwedd mis Medi 2019.

Bydd y ddarpariaeth ariannol ychwanegol yn cael ei hariannu o Gronfeydd Wrth Gefn y Gwasanaethau Corfforaethol ac felly gellir ei chytuno o dan bwerau dirprwyedig yn unol â Strategaeth Ariannol a Strategaeth Wrth Gefn y Cyngor gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol a Chyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai. Adroddir am y gofyn ychwanegol hwn ar gronfeydd wrth gefn drwy fonitro cyllideb i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau nesaf. Wrth gloi, dywedodd yr Arweinydd, os na fydd y broses ddisgyblu yn dod i ben erbyn diwedd mis Medi, y bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu i'r Cyngor.

Trafododd yr aelodau y datganiad a mynegi eu pryderon ynghylch y ddarpariaeth ariannol o £31k yr ymdrinnir â hi o dan bwerau dirprwyedig ac roeddent yn teimlo y dylai'r ffigur hwn fod wedi dod gerbron y Cyngor Llawn er mwyn cynnal pleidlais ddemocrataidd. Cyfeiriodd Aelod at y swm o £242K yr oedd y Cyngor wedi'i gymeradwyo ar 18 Tachwedd 2018 i dalu'r ffioedd parhaus sy'n gysylltiedig â'r broses ddisgyblu. Dywedodd swyddogion mai'r ffigur y gofynnwyd amdano oedd yr amcangyfrif gorau bryd hynny ac ar ôl derbyn adroddiadau pellach, mae pethau wedi symud yn eu blaen. Roedd yr aelodau'n cwestiynu a oedd iawndal yn cael ei geisio am y broses ddisgyblu a or-redodd yn

afresymol ac, fel pwynt o drefn, y gellid cynnal pleidlais wedi'i chofnodi ar yr eitem hon. Atgoffwyd yr aelodau bod Datganiad yr Arweinydd er gwybodaeth yn unig ac yn ymwneud yn benodol â'r ddarpariaeth ariannol o £31K; mae'r Cyngor wedi bod yn agored ac yn dryloyw ac mae angen y ddarpariaeth ariannol hon er mwyn dod â'r broses ddisgyblu i ben.

**ADRODDIAD Y SWYDDOGION**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

**5. DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER 2018/19**

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth o'r Datganiadau Ariannol 2018/19 archwiliedig, er mwyn iddynt gael eu llofnodi gan Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â gofynion statudol. Mae'r Datganiadau Ariannol yn gymhleth iawn ac mae'r gofynion fformatio a datgelu yn cael eu pennu gan amrywiol safonau cyfrifyddu a gofynion deddfwriaethol. Hysbyswyd yr Aelodau na all y Cyngor newid unrhyw beth yn realistig yn y Datganiadau Ariannol, gan y byddai angen cymeradwyaeth yr Archwilydd allanol, Grant Thornton, ar gyfer unrhyw newidiadau.

Yn ei gyfarfod ar 23 Gorffennaf 2019, cyflwynwyd Adroddiadau Archwiliad yr Archwilydd Allanol o Ddatganiadau Ariannol i'r Pwyllgor Archwilio a oedd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a oedd wedi'i gwblhau bryd hynny. Nododd adroddiad yr Archwilydd (ynghlwm, fel Atodiad 1) mai bwriad yr Archwilydd Cyffredinol oedd cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar Ddatganiadau Ariannol 2018/19 yn seiliedig ar y gwaith archwilio a gwblhawyd ar 23 Gorffennaf 2019. Ar ôl ystyried Adroddiad yr Archwilydd, cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio yn unfrydol argymhelliad i'r Cyngor y dylid cymeradwyo'r Datganiadau Ariannol, yn amodol ar unrhyw newidiadau a allai fod yn ofynnol o ganlyniad i waith archwilio parhaus.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr Archwilydd allanol wedi bod yn cwblhau profion archwilio terfynol mewn nifer o feysydd yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Roedd copïau o'u hadroddiad wedi'u diweddaru ar gael i'r holl Aelodau, gan ddangos newidiadau wedi'u tracio o'r ddogfen a gylchredwyd yn wreiddiol gydag agenda'r Cyngor. Roedd copïau caled o newidiadau i dudalennau perthnasol yn y Datganiadau Ariannol hefyd ar gael i'r Aelodau gyda'r newidiadau wedi'u hamlygu mewn melyn.

Yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin 2019, cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar yr Alldro Dros Dro ar gyfer 2018/19. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion symudiadau ar falans y Gronfa Gyffredinol rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 ynghyd ag ymrwymiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer 2019/20. Atgoffwyd yr aelodau mai balans y Gronfa Gyffredinol a ragwelwyd fel yr adroddwyd i'r Cyngor ar 21 Chwefror 2019 oedd £11.660 miliwn, gyda'r cynnydd o £2.380 miliwn dros y lefel a ragwelwyd yn flaenorol yn cael ei drosglwyddo i Gronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn. Gofynnwyd i'r aelodau nodi y bydd adroddiad yn cael ei baratoi yn ystod yr hydref mewn perthynas â chronfeydd cyfalaf heb eu dyrannu a chynigion ar gyfer buddsoddiadau mewn nifer o brosiectau strategol allweddol.

Argymhellodd y Prif Weithredwr Dros Dro seibiant byr i roi cyfle i'r Aelodau ystyried y ddogfennaeth ychwanegol a chefnogwyd hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

Yn dilyn y seibiant, cyfeiriodd yr Archwilydd allanol yr Aelodau at ei adroddiad wedi'i ddiweddaru a chyfeiriodd yn benodol at y diwygiadau ar dudalen 4. Mae hyn yn nodi statws cyfredol yr archwiliadau sydd wedi'u cwblhau a'r rhai sy'n ddyledus ar 30 Gorffennaf 2019. Wedyn, cyfeiriwyd at Atodiad 3 sy'n crynhoi'r camddatganiadau i'w cywiro gan reolwyr. Mewn perthynas â gwariant incwm y Cyfrif Refeniw Tai a restrwyd, eglurwyd mai'r rheswm dros y cywiriad yw bod addasiad â llaw yn cael ei wneud i wyneb y

Cyfrifon Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i adlewyrchu'r rhaniad incwm a gwariant a ddatgelir yn y Cyfrif Refeniw Tai. Nid yw hyn yn cael unrhyw effaith ar Wariant Net na balansau arian parod y Cyfrif Refeniw Tai.

Trafododd yr aelodau yr adroddiad a'r diweddariad yn fanwl a cheisio eglurhad mewn nifer o feysydd. Holodd Aelod am yr ymrwymiadau Cyfalaf ar gyfer materion sy'n codi yn Arddangosyn 7 a dywedwyd wrtho y bydd adolygiad o ymrwymiadau Cyfalaf yn cael ei gynnal yn flynyddol. Mae mwy o fanylion am yr ymrwymiadau cyfredol wedi'u nodi ar dudalen 118 yn y pecyn agenda.

Cyfeiriodd Aelod at baragraff 5.8 yn adroddiad y Swyddog a'r arbedion disgwyliedig o £44m y bydd eu hangen dros y cyfnod o bedair blynedd 2020/21 i 2023/24. Cyfeiriodd hefyd at y gwaith sylweddol sydd i'w wneud a'r costau cysylltiedig y cyfeirir atynt ar dudalennau 32 a 33 yn Atodiad 2. Dywedodd swyddogion fod ystod o ragdybiaethau'n gysylltiedig â'r arbedion, er enghraifft, mae ansicrwydd mewn perthynas â chyllid Llywodraeth Cymru. Roedd cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ym mis Chwefror am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi cynllun 5 mlynedd. Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Rheolwyr i ystyried arbedion posibl wrth symud ymlaen a chynhelir ymgynghoriad 8 wythnos ar ddiwedd 2019 i ystyried cynigion. Bydd y Cabinet hefyd yn gweithio'n agos gydag undebau llafur i ddiogelu swyddi. Yna gofynnodd yr Aelod wedyn am gyngor o ran symud cynnig mewn perthynas ag amrywiol adrannau yn y Datganiadau Ariannol. Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro a’r Dirprwy Swyddog Monitro fod yn rhaid i gynnig fod yn berthnasol ac yn benodol a bod yr adroddiad hwn yn ‘Ddatganiad o Ffeithiau’ ac, o’r herwydd hynny, ni dderbyniwyd y cynnig.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â Dyfarniad McCloud/Sergeant ar gyfanswm rhwymedigaethau pensiwn y Cyngor. Dywedodd yr Archwilydd allanol fod yna lawer o ansicrwydd o ran trefniadau yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi newid o'r cyflog terfynol i enillion cyfartalog gyrfa. Gall gwahaniaethu ar sail oedran hefyd effeithio ar Gynghorau o ran cynyddu eu rhwymedigaethau pensiwn yn yr ystyr y gellir lledaenu hyn dros nifer o flynyddoedd.

Cyfeiriodd Aelod at y canfyddiadau sy'n ymwneud ag awdurdodi Cyfnodolion yn Atodiad 4 a gofynnodd a oes risgiau'n gysylltiedig. Esboniwyd nad yw pob Cyfnodolyn wedi'i awdurdodi o fewn yr awdurdod. Codwyd y pwnc hwn mewn blynyddoedd blaenorol ac mae'r rheolwyr wedi adolygu'r broses ac wedi gostwng y trothwy awdurdodi i £100 mil fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio. Yn ôl yr Archwilydd allanol, cynhaliwyd ail adolygiad pan symudwyd arian o un cyfrif i’r llall er mwyn sicrhau ni ddigwyddodd unrhyw dwyll na wallau.

Diolchodd yr Archwilwyr allanol i'r Swyddog Dros Dro Adran 151 a'r holl staff yn y tîm am eu cefnogaeth a'u cymorth yn ystod y broses hon. Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod yn cymeradwyo'r adroddiad yn llawn ac yn teimlo bod hyn yn pwysleisio pa mor dda y mae'r Cyngor yn cael ei redeg yn ariannol.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried argymhelliad ychwanegol i'r rhai a nodir ym mharagraff 3, yn adroddiad y Swyddog oherwydd, yn amodol ar unrhyw newidiadau pellach i'r Cyfrifon Ariannol, y dylid dirprwyo eu cymeradwyaeth i'r Swyddog Dros Dro Adran 151.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd, yn amodol ar yr argymhelliad ychwanegol, y dylid cymeradwyo'r argymhellion a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog. Trwy gyfrwng electronig ac wrth bleidleisio ar floc, roedd 43 o blaid, 13 yn erbyn ac 1 yn ymatal.

PENDERFYNWYD:

(i) cymeradwyo'r Datganiadau Ariannol 2018/19;

(ii) cymeradwyo argymhelliad y Cabinet o gadw balans y Gronfa Gyffredinol yn £11.660 miliwn, fel y cytunwyd yn flaenorol gan y Cyngor ar 21 Chwefror 2019;

(iii) cymeradwyo argymhelliad y Cabinet o drosglwyddo'r cynnydd yng ngweddill y Gronfa Gyffredinol o £2.380 miliwn dros y lefel a ragwelwyd yn flaenorol i Gronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn, nes y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yn ystod yr hydref mewn perthynas â chronfeydd cyfalaf heb eu dyrannu a chynigion ar gyfer buddsoddiadau mewn nifer o brosiectau strategol allweddol;

(iv) dirprwyo'u cymeradwyaeth i'r Swyddog Adran 151 (Dros Dro) yn amodol ar unrhyw newidiadau pellach i'r Cyfrifon Ariannol.

Terfynwyd y cyfarfod am 6.30pm.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw newidiadau neu gywiriadau a gytunir arnynt ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 23 Hydref 2019 ac fe'u llofnodwyd gan y Maer.

__________________________

MAER